Cofnodion **CYFARFOD BLYNYDDOL Y CYNGOR** a gynhaliwyd wyneb yn wyneb, nos Fercher, 28 Mai 2025, am 6.00pm.

**PRESENNOL**

Y Cynghorydd Miss C. L. Williams (Maer)

Y Cynghorwyr M. Blackwell, Mrs M. A. Blakeley-Walker, Mrs J. Butterfield YH MBE, Mrs E. M. Chard, Ms J. M. Evans, S. Feeney, A. R. James, K. R. Jones, Mrs D. L. King, Mrs J. L. McAlpine, B. Mellor, Ms V. Roberts, A. J. Rutherford, D. Simmons ac A. Walker.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref
Mrs H. J. Mead – Dirprwy Glerc

## 1. DECHRAU'R CYFARFOD AC YMDDIHEURIADAU

Dechreuodd Gaplan y Maer, y Tad Anthony Nnamah, y cyfarfod drwy arwain pawb a oedd yn dymuno gwneud hynny mewn gweddi.

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Mrs J. Chamberlain-Jones, W. Price a Miss S. L. Roberts.

Croesawodd y Maer bawb i'r cyfarfod.

## 2. DATGAN BUDDIANNAU

Gofynnodd y Maer a oedd gan yr aelodau unrhyw fuddiannau personol a/neu fuddiannau sy'n rhagfarnu i'w datgan yng nghyswllt unrhyw fusnes i'w drafod ar yr agenda.

Ni wnaed unrhyw ddatganiad o fuddiant.

## 3. ETHOL A SEFYDLU'R MAER

Cyflwynodd y Cynghorydd Miss Williams grynodeb o'i blwyddyn fel Maer, gan ddechrau drwy fynegi ei diolch i aelodau'r Cyngor am roi'r cyfle iddi gael ei phenodi i swydd anrhydeddus y Maer.

Diolchodd hefyd i'r Tad Nnamah, fel Caplan y Maer, a Mrs Ann Jones, Consort y Maer, am eu hamser a'u hymrwymiad i'w dyletswyddau, ac i'r Dirprwy Faer, y Cynghorydd Alexander Walker, am gynrychioli ar ran y Maer yn ei habsenoldeb.

Esboniodd y Cynghorydd Williams ei bod wedi ymdrechu i fod yn eiriolwr sy'n 'hyrwyddo mynediad cydradd i holl aelodau'n cymuned' yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, a sicrhau bod hanfodion bywyd ar gael i bawb. Yn ogystal â defnyddio'i hangerdd tuag at y celfyddydau creadigol fel catalydd i annog iechyd meddwl cadarnhaol.

Wrth adlewyrchu ar ei blwyddyn, tynnodd y Cynghorydd Williams sylw at ddigwyddiad eithriadol a gynhaliwyd gan 'Work in Progress'. Roedd eu digwyddiad cymuned, 'Sharing 2025,' yn dathlu llesiant cadarnhaol drwy

gyfrwng drama, cerddoriaeth a dawns, ac yn rhoi llwyfan i bobl ag anawsterau iechyd meddwl i ddangos eu doniau.

Digwyddiad arall y cyfeiriodd y Cynghorydd Williams ato oedd Gŵyl Ffilm Ieuenctid Cenedlaethol 'Wicked Wales,' fforwm sy'n meithrin gweledigaeth artistig a dychymyg pobl ifanc leol, yn ogystal a phobl ifanc yn rhyngwladol.

Yn fwy diweddar, Symposiwn Un Cefnfor y Gymdeithas Cadwraeth Morol yn Theatr y Pafiliwn. Roedd yn ddigwyddiad llawn gwybodaeth a agorodd ei llygaid i harddwch a bywyd gwyllt y cefnfor a'r camau pwysig y mae angen i ni eu dilyn i gadw a mwynhau'r adnodd hollbwysig hwn. Roedd y noson yn dathlu gwaith gwirfoddolwyr drwy'r prosiect 'Hiraeth yn y Môr.'

Cyfeiriodd hefyd at ei hymweliad â chymdeithas dai Clwyd Alyn i weld sut mae'r gwasanaeth Un Llwybr Mynediad at Dai yn gweithio mewn partneriaeth gyda Chyngor Sir Ddinbych a gweld datblygiad Llywodraeth Cymru ar Stryd Edward Henry, sy'n darparu tai cymdeithasol fforddiadwy fel rhan o'r ymdrech i ailddatblygu gorllewin y Rhyl.

Yn olaf cyfeiriodd y Cynghorydd Williams at y noson wych a fwynhaodd yn Noson Elusennol Maer Prestatyn.

Yna gwahoddodd y Maer enwebiadau am Faer ar gyfer blwyddyn ddinesig 2025/26.

Cynigiodd y Cynghorydd Councillor S. Feeney, ac eiliwyd gan y Cynghorydd A. R. James, enwebu'r Cynghorydd Alexander Walker.

***<u>PENDERFYNWYD</u>*** *ethol y Cynghorydd Walker.*

Yna gwnaeth y Maer a oedd yn ymddeol, y Cynghorydd Williams, gyflwyno Cadwyn y Maer ac anrheg bychan i'r Cynghorydd Walker.

Darllenodd a llofnododd y Cynghorydd Walker ddatganiad derbyn y swydd.

Diolchodd y Maer newydd i'w gynigydd a'i eilydd am ei enwebu a'u geiriau caredig, a chynghorodd na fyddai ganddo Gonsort eleni a'i Gaplan fyddai'r Parchedig Helen Gheorghiu Gould, gyda chymorth y Parchedig Janet Crane.

Dywedodd y Maer, fel cynrychiolydd y genhedlaeth iau, mai ei amcan oedd dangos i bobl ifanc y gallant gymryd mwy o ran yn eu cymuned er mwyn ysgogi newid cadarnhaol ac i ddangos y gallant gael llais yn ein cymdeithas. Ychwanegodd ei fod yn ymwybodol fod mwy o bobl ifanc yn wynebu anawsterau iechyd meddwl, ac mae'n hanfodol bwysig eu bod yn cael mynediad i wasanaethau cymorth iechyd meddwl a'u bod yn cael eu cyfeirio at y mudiadau cywir sy'n cynnig cymorth a chefnogaeth.

Nododd mai ei elusennau am y flwyddyn fyddai MIND Dyffryn Clwyd a Chlwb Cerddoriaeth y Rhyl.

Mynegodd y Maer newydd werthfawrogiad ar ran y Cyngor i'r Maer a oedd yn ymddeol, a chyflwynodd arfbais y dref iddi, medal cyn Faer a blodau. Cyflwynodd y Maer dusw o flodau i'r Consort a oedd yn ymddeol hefyd.

**4. ETHOL DIRPRWY FAER**

Yn unol â pholisi'r Cyngor ar benodiadau blynyddol, gwahoddodd y Maer enwebiadau i ethol Dirprwy Faer ar gyfer blwyddyn ddinesig 2025/26.

Cynigiwyd gan y Cynghorydd A. J. Rutherford ac eiliwyd gan y Cynghorydd A. R. James enwebu'r Cynghorydd Mrs J. Butterfield YH MBE.

***PENDERFYNWYD*** *ethol y Cynghorydd Butterfield YH MBE.*

Cyflwynodd y Maer gadwyn y swydd i'r Cynghorydd Butterfield a'i gwahodd i lofnodi'r datganiad derbyn y swydd.

Yn dilyn gwneud hyn diolchodd y Dirprwy Faer i aelodau'r Cyngor am ei henwebu a chynghorodd mai Consort y Dirprwy Faer fyddai Mr David Turner.

Cyflwynodd y Maer flodau i'r Cynghorydd Butterfield a bathodyn y swydd ac anrheg bach i Mr David Turner.

**5. COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfodydd a ganlyn y Cyngor a'i bwyllgorau i'w cymeradwyo fel cofnodion cywir:

Cyfarfod y Cyngor - 16 Ebrill 2025 - Cofnodion rhifau 153-169

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Miss C. L. Williams ac eiliwyd gan y Cynghorydd A. Walker, a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnodion cywir.*

Y Pwyllgor Cynllunio - 16 Ebrill 2025 - Cofnodion rhifau 58 - 61

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Ms J. L. McAlpine ac eiliwyd gan y Cynghorydd D. Simmons, a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnodion cywir.*

Y Pwyllgor Cynllunio - 7 Mai 2025 - Cofnodion rhifau 62 - 67

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Ms J. L. McAlpine ac eiliwyd gan y Cynghorydd D. Simmons, a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnodion cywir.*

Cadarnhau neu fel arall:

Y Pwyllgor Cyllid a Materion Cyffredinol - 7 Mai 2025 - Cofnodion rhifau 82 - 90

Cynigiwyd gan y Cynghorydd A. J. Rutherford ac eiliwyd gan y Cynghorydd B. Mellor, a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnodion cywir a'u cadarnhau i'w gweithredu.*

6. **<u>PENODI AELODAU PWYLLGORAU / IS-BWYLLGORAU / LLYWODRAETHWYR YSGOL AR GYFER BLWYDDYN DDINESIG 2025/26</u>**

Gofynnodd y Maer i'r aelodau gadarnhau'r penodiadau fel y dangoswyd yn y tabl (a ddosbarthwyd gyda'r agenda).

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs J. Butterfield YH MBE ac eiliwyd gan y Cynghorydd Miss C. L. Williams, a ***<u>PHENDERFYNWYD</u>*** *cymeradwyo'r penodiadau.*

7. **<u>ETHOL CADEIRYDD – Y PWYLLGOR CYLLID A MATERION CYFFREDINOL</u>**

Yn unol â pholisi'r Cyngor ar benodiadau blynyddol, gwahoddodd y Maer enwebiadau i ethol Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Materion Cyffredinol ar gyfer blwyddyn ddinesig 2025/26.

Cynigiodd y Cynghorydd B. Mellor ac eiliodd y Cynghorydd Miss C. L. Williams benodi'r Cynghorydd A. J. Rutherford.

***<u>PENDERFYNWYD</u>*** *ethol y Cynghorydd Rutherford.*

8. **<u>ETHOL IS-GADEIRYDD – Y PWYLLGOR CYLLID A MATERION CYFFREDINOL</u>**

Yn unol â pholisi'r Cyngor ar benodiadau blynyddol, gwahoddodd y Maer enwebiadau i ethol Is-gadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Materion Cyffredinol ar gyfer blwyddyn ddinesig 2025/26.

Cynigiodd y Cynghorydd Mrs J. Butterfield YH MBE ac eiliodd y Cynghorydd A. J. Rutherford benodi'r Cynghorydd B. Mellor.

***<u>PENDERFYNWYD</u>*** *ethol y Cynghorydd Mellor.*

9. **<u>ETHOL CADEIRYDD – Y PWYLLGOR CYNLLUNIO</u>**

Yn unol â pholisi'r Cyngor ar benodiadau blynyddol, gwahoddodd y Maer enwebiadau i ethol Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio ar gyfer blwyddyn ddinesig 2025/26.

Cynigiodd y Cynghorydd A. Walker ac eiliodd y Cynghorydd D. Simmons benodi'r Cynghorydd Ms J. L. McAlpine.

***<u>PENDERFYNWYD</u>*** *ethol y Cynghorydd McAlpine.*

10. **<u>ETHOL IS-GADEIRYDD – Y PWYLLGOR CYNLLUNIO</u>**

Yn unol â pholisi'r Cyngor ar benodiadau blynyddol, gwahoddodd y Maer enwebiadau i ethol Is-gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio ar gyfer blwyddyn ddinesig 2025/26.

Cynigiodd y Cynghorydd S. Feeney ac eiliodd y Cynghorydd A. J. Rutherford benodi'r Cynghorydd D. Simmons.

***PENDERFYNWYD*** *ethol y Cynghorydd Simmons.*

## 11. ETHOL CADEIRYDD – Y PWYLLGOR CYNLLUNIO STRATEGOL A GWEITHREDOL

Yn unol â pholisi'r Cyngor ar benodiadau blynyddol, gwahoddodd y Maer enwebiadau i ethol Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio Strategol a Gweithredol ar gyfer blwyddyn ddinesig 2025/26.

Cyngiodd y Cynghorydd B. Mellor ac eiliodd y Cynghorydd Mrs E. M. Chard benodi'r Cynghorydd A. J. Rutherford.

***PENDERFYNWYD*** *ethol y Cynghorydd Rutherford.*

## 12. ETHOL IS-GADEIRYDD – Y PWYLLGOR CYNLLUNIO STRATEGOL A GWEITHREDOL

Yn unol â pholisi'r Cyngor ar benodiadau blynyddol, gwahoddodd y Maer enwebiadau i ethol Is-gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio Strategol a Gweithredol ar gyfer blwyddyn ddinesig 2025/26.

Cynigiodd y Cynghorydd A. J. Rutherford ac eiliodd y Cynghorydd D. Simmons benodi'r Cynghorydd A. R. James.

***PENDERFYNWYD*** *ethol y Cynghorydd James.*

## 13. CYFLWYNO BATHODYNNAU GWASANAETH HIR

Mae'r bathodyn yn cynrychioli 12 mlynedd o wasanaeth i'r gymuned fel Cynghorydd Tref.

Roedd y Cynghorydd Miss Sarah Roberts wedi cyflwyno ymddiheuriadau ar gyfer y cyfarfod ac felly nid oedd yn bresennol i dderbyn ei bathodyn.

***PENDERFYNWYD*** *cyflwyno'r bathodyn i'r Cynghorydd Roberts mewn cyfarfod yn y dyfodol.*

## 14. PENODI CYNRYCHIOLWYR AR GYRFF ALLANOL / GRWPIAU PARTNERIAETH

Gofynnodd y Maer i'r aelodau gadarnhau'r penodiadau ar gyfer blwyddyn ddinesig 2025/26, fel y dangoswyd yn y rhestr (a ddosbarthwyd gyda'r agenda).

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Miss C. L. Williams ac eiliwyd gan y Cynghorydd A. R. James, a ***PHENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r penodiadau.*

## 15. DYNODI DYLETSWYDDAU CYMERADWY

Gofynnodd y Maer gadarnhad ynghylch presenoldeb cynrychiolwyr a benodwyd yn y digwyddiadau isod fel dyletswyddau cymeradwy:

- Hyfforddiant i Gadeiryddion ac Is-gadeirydd y Cyngor a'i bwyllgorau sefydlog

- Cymdeithas Cynghorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru (a'r Pwyllgor Trafnidiaeth Rhanbarthol cysylltiedig)
- Sir Ddinbych Gynaliadwy
- Grŵp Cyfeirio Prosiect Gogledd Sir Ddinbych Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Presenoldeb y Maer neu'r Dirprwy Faer mewn digwyddiadau dinesig yn Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Chonwy. Attendance of Mayor or Deputy Mayor at civic events in Denbighshire, Flintshire and Conwy.

Cynigiwyd gan y Cynghorydd A. J. Rutherford ac eiliwyd gan y Cynghorydd Miss C. L. Williams, a ***PHENDERFYNWYD*** *cadarnhau'r dyletswyddau cymeradwy.*

## 16. AMSERLEN CYFARFODYDD (2025/26)

Gofynnodd y Maer i'r aelodau gadarnhau amserlen y cyfarfodydd ym mlwyddyn ddinesig 2025/26 fel y dangoswydd yn y rhestr (a ddosbarthwyd gyda'r agenda).

Cynigiwyd gan y Cynghorydd A. R. James ac eiliwyd gan y Cynghorydd Mrs E. M. Chard, a ***PHENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r atodlen.*

## 17. LLOFNODWYR (2025/26)

Gofynnodd y Maer i'r aelodau gadarnhau llofnodwyd cyfrifon banc cyfredol a buddsoddi'r Cyngor yn ystod blwyddyn ddinesig 2025/26.

Cynigiodd y Cynghorydd A. R. James ac eiliodd y Cynghorydd D. Simmons gadarnhau'r llofnodwyr fel:

Y Maer a'r Dirprwy Faer, fel Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Cyngor
Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Materion Cyffredinol
Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio
Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio Strategol a Gweithredol

Ynghyd ag un o'r swyddogion a ganlyn:

Clerc y Dref
Dirprwy Glerc y Dref
Y Swyddog Cyllid

***PENDERFYNWYD*** *cadarnhau'r llofnodwyr.*

## 18. DIWEDD Y CYFARFOD

Gan nad oedd rhagor o eitemau busnes i'w trafod cyhoeddodd y Maer ddiwedd y cyfarfod.

Maer: ……..…………………..

Dyddiad: …..18.06.2025………..